Annwyl Cwsmer

**Gwasanaeth Symudol Maesgeirchen**

**Penderfyniad yn dilyn Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol**

Rwy’n ysgrifennu ynglŷn â fy llythyr dyddiedig 13 Chwefror 2018 a oedd yn cadarnhau y byddwn yn bwrw ymlaen â’n cynllun i adfer gwasanaethau Swyddfa’r Post i gymuned Rhos-y-bol. Byddwn hefyd yn adleoli ac yn newid oriau’r Gwasanaeth symudol yn Llanfairfechan. Yn ogystal, mae yna rai mân newidiadau i’r oriau yn Llanfaelog a Moelfre.

Dechreuodd y Gwasanaeth symudol yn Rhos-y-bol ac adleolwyd a newidiwyd oriau’r Gwasanaeth symudol yn Llanfairfechan ddydd Llun 5 Chwefror 2018. Yn ogystal, gwnaed newid bach i’r oriau yn Llanfaelog a Moelfre ar yr un dyddiad.

Cawsom ddau sylw gan gynrychiolwyr lleol yn ystod y cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus lleol. Roedd yr adborth yn ymwneud ag adfer gwasanaethau Swyddfa'r Post yn Rhos-y-bol a newid oriau'r gwasanaethau.

Rwy’n addo y byddwn yn dal i adolygu a monitro'r gwasanaethau drwy'r amser, a phe bai cynnydd sylweddol yn y defnydd ohonynt, byddem yn ystyried newid yr oriau yn unol â hynny.

Rwyf wedi rhoi ystyriaeth ofalus i fy nghynllun gwreiddiol a'r adborth a gafwyd yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus. Rwy'n ffyddiog fod y Gwasanaeth symudol newydd mewn lleoliad cyfleus ac y bydd y ffordd newydd hon o gynnig gwasanaethau Swyddfa'r Post yn diwallu anghenion y cwsmeriaid ac, ar yr un pryd, yn help i roi dyfodol cynaliadwy i'r Swyddfa Bost.

Fe welwch fanylion llawn am y gwasanaethau a’r oriau agor newydd ar ddiwedd y llythyr hwn.

Mae’r wybodaeth hon ar gael hefyd yng Nghanolfan Ymgynghori Swyddfa’r Post yn postofficeviews.co.uk. Wrth gyrraedd y wefan, gofynnir ichi gofnodi'r cod ar gyfer y gwasanaeth hwn: 169444.

Bydd posteri'n cael eu harddangos yn lleol nawr i roi gwybod i gwsmeriaid am y penderfyniad hwn.

Diolch ichi am ystyried ein cynllun.

Yr eiddoch yn gywir

*Sarah Cottrell*

**Sarah Cottrell**
**Rheolwraig Ardal dros Weithrediadau’r Rhwydwaith**

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.
Registered Office Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London. EC2Y 9AQ
Post Office and the Post Office logo are registered trade marks of Post Office Limited
Cofrestwyd Swyddfa’r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540
Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain. EC2Y 9AQ,
Mae Swyddfa’r Post a logo Swyddfa’r Post yn nodau masnach cofrestredig i Swyddfa’r Post Cyfyngedig

PostOffice.co.uk

**Sut i gysylltu â ni:**

- postofficeviews.co.uk.
- comments@postoffice.co.uk.
- FREEPOST Your Comments

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu Braille, byddwch cystal â chysylltu â'r Llinell Gymorth i Gwsmeriaid ar 03452 66 01 15 neu Ffôn Testun 03457 22 33 55.**

Cafodd y broses gyfathrebu hon ei chytuno â chorff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr, sef y Cyngor ar Bopeth a Chyngor ar Bopeth yr Alban ym Mhrydain, a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n cael ei gweithredu yn unol â'n Cod Ymarfer ar gyfer newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post, a gytunwyd â nhw. Os hoffech gael copïau o'r Cod, maent ar gael mewn canghennau, neu wrth gysylltu â ni neu wrth ymweld â'n gwefan yn: postofficeviews.co.uk. Os ydych o'r farn nad ydym wedi dilyn y broses yn gywir ac yn dymuno gwneud cwyn, byddwch cystal ag anfon llythyr neu ebost atom wrth ddefnyddio'r manylion cyswllt yn ein posteri a llythyrau ac esbonio pam. Byddwn yn archwilio eich cwyn ac yn rhoi ateb i chi cyn gynted â phosibl. Byddwn yn rhoi'r mannau cyswllt perthnasol ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr i chi. Felly, os ydych yn dal yn anfodlon ar ôl derbyn ein hymateb, gallwch ofyn iddynt am eu cymorth.

**Manylion am y Gwasanaeth Symudol newydd:**

**Swyddfa Bost Rhos-y-bol**
Y tu allan i 1 Stad Siop Newydd
Rhos-y-bol
Amlwch
LL68 9RH

**Yr oriau agor arfaethedig**

| | |
|---|---|
| Llun | 12:30 – 13:30 |
| Mawrth | 12:30 – 13:30 |
| Iau | 12:30 – 13:30 |

**Gwasanaethau**
Bydd dewis eang o wasanaethau ar gael. Gall cwsmeriaid ddal i gasglu budd-daliadau mewn arian parod trwy ddefnyddio ein gwasanaethau bancio beunyddiol neu gyfrif cerdyn Swyddfa'r Post.

**Mynediad a chyfleusterau**
Mae yna ris i mewn i'r Cerbyd Symudol, ond mae tinbren electronig ar gael i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr cadair olwyn neu bobl ag anableddau i fynd i mewn.

**Trafnidiaeth/parcio**
Mae modd parcio gerllaw wrth ymyl y ffordd.

**Llwybr**
Bydd y Cerbyd Symudol yn parcio ar draws y ffordd i'r Swyddfa Bost flaenorol.

**Manylion am adleoliad a newid oriau'r Gwasanaeth symudol:**

**Swyddfa Bost Symudol Llanfairfechan**
Maes Parcio'r Village Inn
Heol Penmaen-mawr
Llanfairfechan
LL33 0NU

**Yr oriau agor arfaethedig**

| | |
|---|---|
| Llun | 15:30 – 17:00 |
| Mawrth | 15:30 – 17:00 |
| Iau | 15:30 – 17:00 |
| Gwener | 15:00 – 17:00 |

**Gwasanaethau**
Bydd dewis eang o wasanaethau ar gael. Gall cwsmeriaid ddal i gasglu budd-daliadau mewn arian parod trwy ddefnyddio ein gwasanaethau bancio beunyddiol neu gyfrif cerdyn Swyddfa'r Post.

**Mynediad a chyfleusterau**
Mae yna ris i mewn i'r Cerbyd Symudol, ond mae tinbren electronig ar gael i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr cadair olwyn neu bobl ag anableddau i fynd i mewn.

**Trafnidiaeth/parcio**
Mae'r cerbyd yn parcio ym Maes Parcio'r Village Inn.

**Llwybr**
Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 320 metr o'r gangen flaenorol, ar hyd tir amrywiol ei natur.

**Manylion am y newidiadau i oriau'r Gwasanaethau symudol:**

**Gwasanaeth Symudol Llanfaelog**
Cwrt blaen Siop Glandŵr
The Wayside
Llanfaelog
Tŷ-croes
LL63 5SY

**Oriau agor newyddd**

| | |
|---|---|
| Llun | 10:45 – 12:00 |
| Mawrth | 10:45 – 12:00 |
| Iau | 10:45 – 12:00 |

**Gwasanaeth symudol Moelfre**
Y tu allan i Lyfrgell Moelfre
Y Ganolfan
Moelfre
LL72 8HA

**Oriau agor newyddd**

| | |
|---|---|
| Llun | 13:45 – 14:45 |
| Mawrth | 13:45 – 14:45 |
| Iau | 13:45 – 14:45 |